MESUR EIN HUNAIN:

CAMU TUAG AT GYDRADDOLDEB

I FERCHED

YNG NGHYMRU

BEVAN FOUNDATION • SEFYDLIAD

30 mlynedd 30 years

Comisiwn Cyfle Cyfartal
Menywod. Dynion. Gwahanol. Cydradd.
Women. Men. Different. Equal.
Equal Opportunities Commission

Diolchiadau

Mae Sefydliad Bevan yn cydnabod yn ddiolchgar y cymorth ariannol, yr help a chyngor dderbyniwyd gan y Comisiwn Cyfle Cyfartal tuag at gost y prosiect.

Rydym hefyd yn ddiolchgar i ystadegwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Comisiwn Cyfle Cyfartal am eu help. Diolch hefyd i Martin Read am baratoi'r tabl ar dudalen 7.

Cyhoeddwyd gan Sefydliad Bevan
Tŷ Aneurin Bevan House
40 Castle Street / Stryd y Castell
Tredegar
Blaenau Gwent
NP22 3DQ
01495 725214
info@bevanfoundation.org
www.bevanfoundation.org

Rhif cofrestru elusen: 1104191

ISBN 1-904 767 -17 -6

Hawlfraint Sefydliad Bevan [Foundation] / Y Comisiwn Cyfle Cyfartal. Cedwir pob hawliau.

CYNNWYS

RHAGAIR	**3**
MESUR CYNNYDD TUAG AT GYDRADDOLDEB	**4**
CANLYNIAD CYMRU'N MESUR EI HUNAN	**6**
CYFLOGAETH	**8**
ADNODDAU ARIANNOL	**11**
BYWYD CYHOEDDUS	**15**
ATODIAD 1 - ADNODDAU	**18**

RHAGAIR

Mae'r Comisiwn Cyfle Cyfartal yn falch iawn o fod wedi cefnogi gweithio â Sefydliad Bevan ar y prosiect arloesol hwn. Rydyn ni am ddatblygu indecs sy'n dangos y cynnydd tuag at gydraddoldeb i ferched yng Nghymru ac y mae 'Mesur ein Hunain' yn gam gwerthfawr tuag at ein nod.

Yn Ebrill 2007 bydd y newid mwyaf i ddeddfwriaeth cydraddoldeb ar sail rhyw ers Y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw yn dod i rym - y Ddyletswydd Cydraddoldeb Rhywiol. Bydd y ddyletswydd newydd hon yn mynnu bod pob corff cyhoeddus yn hyrwyddo cydraddoldeb ar sail rhyw ac yn diddymu gwahaniaethu wrth ddarparu a chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus a thrwy eu harferion cyflogaeth. Mae potensial o fewn y Ddyletswydd i drawsnewid y sector cyhoeddus yng Nghymru ac bydd y trawsnewid hwn yn cael ei ategu gan ystadegau wedi eu dadansoddi fesul rhyw. Bydd rhain yn arwain penderfyniadau polisi fydd yn effeithio ar bob un ohonom.

Gyda hyn fel cefndir, mae'n ysgytiol i ganfod y diffyg cynnydd a wnaed tuag at gydraddoldeb mewn meysydd allweddol yn ystod y degawd diwethaf. Ychydig iawn o welliannau gafwyd i geisio cau'r bwlch cyflogau rhwng y ddau ryw nac ychwaith i herio gwahaniadau galwedigaethol. Gwelwyd hefyd gynnydd pryderus yn niferoedd y merched sy'n ofni cerdded ar eu pennau eu hunain yn y nos.

Hyderwn y bydd y gwaith cychwynnol hwn ar ddangosyddion cydraddoldeb ar sail rhyw yn gyfraniad buddiol tuag at y nod o sicrhau bod y Ddyletswydd Cydraddoldeb Rhywiol yn gwireddu'r potensial i wella gwasanaethau cyhoeddus ac yn rhoi gwir fudd i ferched a dynion yng Nghymru.

Rhaid i'r dangosyddion cydraddoldeb ar sail rhyw sydd yn 'Mesur ein Hunain' fod yn hawdd eu deall ar gyfer y cyhoedd, yn ogystal â'r ffurfwyr polisi a'r gwleidyddion. Bydd cyflwyno'r data mewn ffurf sy'n hygyrch a deniadol ar gyfer cynulleidfa ehangach yn un o dasgau'r dyfodol ac yn her y gobeithiwn fydd yn cael ei derbyn gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol newydd. .

Kate Bennett

Kate Bennett
Cyfarwyddydd
Y Comisiwn Cyfle Cyfartal, Cymru

MESUR EIN CYNNYDD TUAG AT GYDRADDOLDEB

Pam mesur ein cynnydd?

Fe fu newidiadau cymdeithasol ac economaidd cyflym yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf ond erys y diffygion sylweddol mewn cydraddoldeb rhwng merched a dynion. Nid yw'r cyfan o'r anghydraddoldeb hwn yn amlwg ac nid yw'n hawdd bob amser i ganfod os yw'r anghydraddoldeb hwn yn cynyddu neu'n gostwng. Fe benderfynon ni ei bod yn hen bryd cael golwg wrthrychol ar ein cynnydd.

Yn gynyddol, mesurir cynnydd tuag at nodau amrywiol drwy ddefnyddio 'dangosyddion' newid. Er enghraifft, mae dangosyddion datblygiad cynaladwy wedi hen sefydlu eu hunain. Fodd bynnag, hyd yma ni ddefnyddiwyd dangosyddion i ddilyn y cynnydd tuag at gydraddoldeb. Mae defnyddio dangosyddion i fesur cydraddoldeb ar sail rhyw yn ddefnyddiol oherwydd eu bod:

- yn darparu mesuriad syml, hawdd ei ddeall, i ddynodi os yw anghydraddoldeb yn gostwng;
- yn galw i gyfrif y cyrff hynny sydd i fod yn gyfrifol am ennill cydraddoldeb rhywiol;
- yn helpu i amlygu'r meysydd hynny sydd angen blaenoriaeth wrth weithredu.

Beth a fesurwyd

Rydym wedi mesur ein cynnydd tuag at gydraddoldeb rhwng merched a dynion mewn saith agwedd wahanol o 'u bywydau. Y saith maes yw:

- cyflogaeth
- adnoddau ariannol
- addysg
- iechyd
- troseddu a diogelwch
- cyfrannu i fywyd cyhoeddus
- symudedd personol.

Mae llawer o feysydd eraill y gallem fod wedi eu cynnwys, megis gofal plant, ond ambell dro roeddem yn cael ein cyfyngu oherwydd diffyg data am ferched a dynion yng Nghymru, neu brinder data mewn maes arbennig.

Eglurir y cynnydd ym mhob maes gwahanol drwy nifer fechan o ddangosyddion. Dewiswyd y dangosyddion i fesur y materion mwyaf arwyddocaol sy'n siapio bywydau merched a dynion. Roedden nhw hefyd yn gorfod mesur ***anghydraddoldeb*** rhwng merched a dynion yn hytrach na'r gwahaniaethau syml rhwng y ddau ryw. Lle roedd hynny'n bosibl, roedd rhaid i'r dangosyddion roi ffigyrau oedd, yn fras, yn ddibynadwy a chyffelyb dros y 10 mlynedd diwethaf.

Rydyn ni wedi ceisio defnyddio dangosyddion sy'n dangos y sefyllfa ***gymharol*** rhwng merched a dynion, yn hytrach na ffigyrau ar gyfer dynion neu ferched. Yn nodweddiadol, rydyn ni wedi mesur y ***bwlch*** sydd rhwng merched a dynion – ac os yw'r bwlch yn cau, mae'n awgrymu bod cydraddoldeb ar gynnydd. Fodd bynnag, gallai'r bwlch hefyd fod yn cau oherwydd dirywiad yn sefyllfa'r dynion yn hytrach na gwellhad yn sefyllfa'r merched.

Goleuadau Traffig Cydraddoldeb

Ble bynnag roedd hi'n bosibl, rydyn ni wedi edrych ar y cynnydd dros y deng mlynedd diwethaf, gan gymharu'r dangosyddion ar gyfer canol y 1990'au, 2000 a 2005 (neu mor agos â phosibl i'r dyddiadau hynny). Rydyn ni wedi defnyddio system goleuadau traffig i ddynodi tuedd cyffredinol y newidiadau:

Anghydraddoldeb ar gynnydd	
Dim newid neu bod y tuedd yn aneglur	
Anghydraddoldeb yn lleihau	

Dydyn ni ddim wedi cyfuno'r dangosyddion i fod yn un mesur sengl neu 'indecs' anghydraddoldeb, gan y byddai honno'n dasg gymhleth ac yn un hirdymor fyddai tu hwnt i gwmpas y prosiect hwn ac na fyddai o reidrwydd wedi rhoi canlyniad eglur nac ystyrlon. Dydyn ni ychwaith ddim wedi datblygu setiau o 'is-ddangosyddion' i ategu'r prif ddangosyddion, gan y byddai hyn hefyd wedi bod yn dasg fwy cymhleth. Fodd bynnag, gellid datblygu is-ddangosyddion i fod yn rhai buddiol ar gyfer y dyfodol.

Beth oedd eich barn chi

Fe fuon ni'n ymgynghori ag ystod eang o sefydliadau ac unigolion am ein cynigion. Roedd ein papur ymgynghorol hefyd yn cynnwys manylion y sail resymegol dros ddewis y dangosyddion – mae copïau o'r papur ymgynghorol gwreiddiol ar gael oddi wrth Sefydliad Bevan, dim ond i chi ofyn amdanyn nhw.

Croesawyd y syniad o osod meincnodau gan y rhai y buon ni'n ymgynghori â nhw a rydyn ni wedi ceisio ystyried y sylwadau ac awgrymiadau a dderbyniwyd.

CANLYNIAD MESUR EIN HUNAIN YNG NGHYMRU

Drwodd a thro, mae anghyfartaledd rhwng y ddau ryw wedi gostwng yn raddol mwn nifer o feysydd ym mywydau merched a dynion, o gyflogaeth y merched a'r dynion sydd â phlant yn ddibynnol arnyn nhw hyd at gyflogau wythnosol gros ac iechyd.

Mewn nifer o feysydd, ni welwyd fawr o newid – gan gynnwys cyflogaeth yn gyffredinol, incwm personol a chyrhaeddiad addysgol yn 16 mlwydd oed (lle mae'r bechgyn ar ei hôl hi).

Dim ond mewn un maes – troseddu a diogelwch – y gwelir gwaethygiad mewn anghyfartaledd rhwng y ddau ryw, lle mae cynnydd yn y cyfartaledd o ferched sy'n ofni trosedd, o'i gymharu â'r dynion.

Ond er bod rhai meysydd wedi cael 'golau gwyrdd', nid dyma'r stori'n gyflawn. Er bod y tuedd yn y cyfeiriad cywir, mae anghyfartaledd yn parhau rhwng dynion a merched a rhaid rhoi sylw i'r meysydd hyn o hyd.

Nodiadau am y tabl

a. Yn y mwyafrif o achosion, y ffigwr yw'r gwahaniaeth rhwng canrannau. Nodir eithriadau.
b. Mae'r dyddiadau'n frasgywir gan mai ffynonellau amrywiol y llywodraeth ddefnyddiwyd; gwelir y dyddiadau manwl yn y troednodiadau ar gyfer y celloedd penodol.
c. Y gwahaniaeth o ganol y 1990'au hyd at ganol y 2000'oedd.
d. 2001
e. 2004
f. 1991
g. 2001
h. 2004
i. Canolrif incwm gros merched fel canran o un y dynion.
j. 1996/97 – 1998/992
k. 2000/02 – 2001/02
l. 2001/02 – 2003/04
m. Enillion wythnosol gros merched fel canran o un y dynion.
n. 1998
o. 2001
p. 1994/95
q. 2000/01
r. 2003/04
s. 1996
t. 2001
u. 2004
v. 1995/97
w. 1999/2001
x. 2002/2004
y. 1998/99
z. 2000/01
aa. 2001/02
bb. 1998
cc. 2001
dd. 2002/03

Y newid mewn gwahaniaethau ar sail rhyw dros y deng mlynedd diwethaf[a]

Dangosydd	Tua 1995[b]	Tua 2000[b]	Tua 2005[b]	Newid[c]	Golau Traffig
Bwlch graddfa cyflogaeth	8·1	8·6	4·1	↓ 4.0	
Bwlch graddfa cyflogaeth – â phlant dibynnol	37.0	36·5[d]	31·1[e]	↓ 5·9	
Bwlch graddfa cyflogaeth – pobl hŷn	-1.0	3·1	1·6	→ 2.6	
Gwahaniad galwedigaethol	31·7[f]	34.0[g]	35.0[h]	↓ 3·3	
Cyfartaledd incwm wythnosol[i]	51·5[j]	57.0[k]	56.0[l]	↓ 4·5	
Cyfartaledd enillion wythnosol[m]	57·7[n]	61·2[o]	63·9	↓ 6·2	
Bwlch cymwysterau yn 16 mlwydd oed	-8.0[p]	-8.0[q]	-8.0[r]	→ 0	
Bwlch cymwysterau oedolion	1·8[s]	0[t]	0[u]	↓ 1·8	
Bwlch disgwyliad oes	-5·6[v]	-5.0[w]	-4·5[x]	↑ 0·9	
Bwlch iechyd da	12.0[y]	0[z]	0[aa]	↓ 12.0	
Bwlch 'ofni cerdded ar ben eich hun yn y nos'	10.0[bb]	11.0[cc]	14.0[dd]	↑ 4.0	

CYFLOGAETH

Rydyn ni wedi dewis dau fath o ddangosydd cydraddoldeb o ran rhyw mewn cyflogaeth. Mae hyn am fod gwaith â thâl yn benderfynydd allweddol am les yr unigolyn. Mae'r dangosydd cyntaf yn edrych a yw merched mewn gwaith yn derbyn tâl i'r un graddau ag y mae dynion. Rydyn ni hefyd wedi defnyddio'r dangosydd hwn i weld beth yw sefyllfa grwpiau gwahanol o ferched o'u cymharu â'r dynion sy'n cyfateb iddyn nhw, gan gynnwys grwpiau lleiafrifoedd ethnig, pobl ag anabledd, rhieni plant dan 5 oed, cynhalwyr a merched a dynion hŷn. Yna, fe edrychwyd i ba raddau y mae merched mewn swyddi sy'n rhai traddodiadol ar gyfer merched.

Graddfeydd cyflogaeth

Rydyn ni wedi mesur y tebygolrwydd bod gan ferched a dynion swydd â thâl gan ddefnyddio'r gwahaniaeth rhwng graddfa cyflogaeth dynion a merched. Mae hwn yn well mesur na'r raddfa gweithgaredd economaidd gan fod y ffiniau rhwng diweithdra ac anactifedd yn aneglur. Y raddfa cyflogaeth yw'r gyfran o'r bobl mewn oedran gweithio sy'n gyflogedig neu'n hunangyflogedig (yn llawn neu rhan amser) neu sydd ar gynllun hyfforddiant y llywodraeth.

	1995	2000	2005	
Bwlch graddfa cyflogaeth	8.1	8.6	4.1	

Mae'r dangosydd yn nodi bod y bwlch rhwng graddfa cyflogaeth dynion a merched wedi cynyddu ychydig dros ail hanner y 1990'au, yna wedi cau'n sylweddol rhwng 2000 a 2005. Yng Ngwanwyn 2005 roedd graddfa cyflogaeth merched yn 69.1% o'i gymharu â 73.2% i ddynion.

Graddfa cyflogaeth – grwpiau lleiafrifoedd ethnig

Rydyn ni wedi dewis cynnwys dangosydd ar grwpiau lleiafrifoedd ethnig er, yn anffodus, nad oes data ar gael cyn ac ar ôl cyfrifiad 2001, a hynny er ethnigrwydd yn fater mor bwysig.

Mae'r dangosydd yn nodi'r bwlch sydd rhwng graddfa cyflogaeth merched a dynion o blith y grwpiau lleiafrifol ethnig.

	1995	2001	2004	
Bwlch graddfa cyflogaeth – grwpiau lleiafrifol ethnig	Ddim yn berthnasol	27	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol

Mae'r dangosydd yn nodi bod bwlch enfawr rhwng graddfa cyflogaeth dynion a merched o grwpiau lleiafrifol ethnig – gwahaniaeth o 27 pwynt o'i gymharu ag 8.6 pwynt ar gyfer holl ferched. Nid yw'r raddfa cyflogaeth ar gyfer merched o leiafrifoedd ethnig ond 55% o'i gymharu ag 82% i ddynion o leiafrifoedd ethnig.

Bwlch graddfa cyflogaeth – merched a dynion ag anableddau

Mae'r dangosydd yn nodi'r gwahaniaeth rhwng graddfa cyflogaeth dynion ag anableddau a graddfa cyflogaeth merched ag anableddau. Yn anffodus, nid oes data ar gael ar gyfer canol y 1990'au.

	1995	2001	2004	
Bwlch graddfa cyflogaeth – merched a dynion ag anableddau	Ddim yn berthnasol	2.7	1.5	

Mae'r bwlch graddfa cyflogaeth rhwng merched a dynion ag anableddau'n llai nag yw'r bwlch rhwng merched a dynion yn gyffredinol. Yn fwy na hynny, mae'r bwlch rhwng merched a dynion ag anableddau'n lleihau. Roedd graddfa cyflogaeth merched ag anableddau yn 2004 yn 40.8% o'i gymharu â 42.3% ar gyfer dynion ag anableddau, a 69.1% ar gyfer yr holl ferched.

Bwlch graddfa cyflogaeth – merched a dynion â phlant ifanc

Mae'r dangosydd hwn yn mesur y gwahaniaeth rhwng graddfa cyflogaeth dynion â phlentyn dibynnol dan 5 oed a'r merched gyda phlentyn dibynnol dan 5 oed.

	1995	2000	2005	
Bwlch graddfa cyflogaeth – merched a dynion â phlentyn dibynnol dan 5 oed	37.0	36.5	31.1	

Mae'r bwlch graddfa cyflogaeth ar gyfer rhieni â phlentyn dibynnol dan 5 oed yn un anferth, er i fod wedi cau ychydig dros y degawd diwethaf i fod yn 31 pwynt canran erbyn 2005. Tra bod 86% o ddynion â phlant dibynnol dan 5 oed mewn gwaith, dim ond 55% o ferched â phlant dibynnol dan 5 oed oedd mewn gwaith.

Bwlch graddfa cyflogaeth - cynhalwyr

Dim ond graddfa cyflogaeth cynhalwyr 2001 sydd ar gael, felly nid yw'n bosibl gweld a yw'r tueddiadau'n newid.

	1995	2001	2005	
Bwlch graddfa cyflogaeth - cynhalwyr	Ddim yn berthnasol	11	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol

Mae'r dangosydd yn nodi bod bwlch o 11 pwynt canran rhwng graddfa cyflogaeth merched a dynion sy'n darparu dros 20 awr o ofal di-dâl. Tra bod 38% o ddynion sy'n darparu gofal o'r fath mewn gwaith, dim ond 27% o ferched syn gynhalwyr oedd mewn swydd â thâl neu oedd yn hunangyflogedig.

Bwlch graddfa cyflogaeth – merched a dynion hŷn

Rydyn ni wedi cynnwys mesur o'r gwahaniaeth rhwng merched a dynion hŷn, gan fod profiad pobl hŷn yn aml yn wahanol iawn i rai pobl iau. Fel o'r blaen, mae'n fesur o'r 'bwlch' sydd rhwng graddfa cyflogaeth y merched a'r dynion rhwng 50 mlwydd oed ag ymddeoliad.

	1995	**2001**	**2004**	
Bwlch graddfa cyflogaeth	-1	3.1	1.6	

Mae'r dangosydd yn arwydd o'r amrywiol dueddiadau welwyd dros y 10 mlynedd diwethaf. Er bod cyfradd uwch o ferched yn cael eu cyflogi ym 1995 nag oedd o ddynion, roedd y gyfradd o ddynion hŷn wedi cynyddu ers hynny nes, erbyn 2004, roedd ychydig yn fwy o ddynion rhwng 50 ag oed ymddeol yn cael eu cyflogi o'u cymharu â'r merched o'r un oedran (64.5% o'r dynion o'u cymharu â 62.9% o'r merched). Mae'r raddfa gyflogaeth ar gyfer merched hŷn bron yr un fath a'r un i'r holl ferched.

Gwahaniad galwedigaethol

Rydyn ni wedi mesur faint mae merched a dynion yn cael eu casglu i alwedigaethau wedi eu stereoteipio – 'gwahaniad galwedigaethol'. Mae'r dangosydd a ddewiswyd yn edrych ar y clystyrau o ferched mewn swyddi 'gwasanaethau personol' (sy'n cynnwys gweithwyr gofal, gweithwyr gofal plant, pobl trin gwallt ayb).

	1991	2001	2004	
Gwahaniad galwedigaethol	Ddim yn berthnasol	87%	82%	

Mae'r dangosydd yn nodi y bu ychydig o leihad yn niferoedd y rhai oedd mewn swyddi stereoteip dros dair blynedd cyntaf yr unfed ganrif ar hugain.

ADNODDAU ARIANNOL

Rydyn ni wedi dewis dau fesurydd o gydraddoldeb mewn adnoddau ariannol. Mae'r cyntaf yn anelu i gynnwys **pob** incwm a dderbynnir gan ferched a dynion, gan gynnwys pensiwn, budd-dal ac incwm buddsoddiadau, yn ogystal ag enillion. Mae'r ail yn ystyried enillion gros wythnosol merched a dynion, gan fod hyn yn adlewyrchu'r gwahaniaeth yn yr oriau gweithio a'r gwahaniaethau yn y graddfeydd talu. Ac mae hefyd yn dangos gallu pobl i gynnal eu hunain a'u dibynyddion.

Incwm

Rydyn ni wedi mesur cydraddoldeb fel canolrif incwm gros merched (h.y. yr incwm gros dderbyniwyd gan hanner yr holl ferched) fel canran o ganolrif incwm gros y dynion. Mae'r ffigwr yn cynnwys incwm o enillion, pensiwn, budd-daliadau a buddsoddiadau.

	1996/7-1998/9	**2000/01-2002/03**	**2001/02-2003/04**	
Incwm merched fel cyfran o incwm dynion	51.5	57.0	56.0	

Mae'r dangosydd yn nodi, ar ôl gweld cynnydd yng nghanolrif incwm merched o'i gymharu ag un y dynion, yn ail hanner y 1990'au, y gwelwyd y bwlch yn ehangu ychydig yn 2001/02 a 2003/04 (y flwyddyn ddiweddaraf y mae data ar gael). Roedd canolrif incwm gros wythnosol merched dros y cyfnod hwn yn £145, o'i gymharu â £245 ar gyfer dynion.

Enillion

Rydyn ni wedi mesur cydraddoldeb enillion ar sail rhyw drwy ystyried cyfartaledd enillion gros wythnosol merched a dynion, naill ai'n llawn neu ran amser, yn hytrach na'r ffigwr ar gyfer pobl llawn amser yn unig, er mwyn ystyried y patrymau gwahanol o weithio. Rydyn ni hefyd wedi dewis defnyddio enillion wythnosol, yn hytrach nac wrth-yr-awr, gan mai hyn sy'n dylanwadu ar allu pobl i gynnal eu hunain a'u teuluoedd.

	1998	**2001**	**2005**	
Cyfartaledd enillion gros wythnosol	57.7	61.2	63.9	

Mae'r ffigwr yn dangos bod y bwlch yn cau'n raddol rhwng enillion gros wythnosol merched a dynion – ar gyfartaledd mae merched bellach yn ennill 63.9% o dâl y dynion, sef £291 yr wythnos, o'u cymharu â £455 y dynion.

ADDYSG A DYSGU

Rydyn ni wedi dewis dau ddangosydd i fesur cydraddoldeb ar sail rhyw mewn addysg a dysgu. Maen nhw wedi eu dewis i amlygu'r cymwysterau uchaf a'r rhai isaf, a'r gwahanol grwpiau o'r boblogaeth.

Cymwysterau yn 16 mlwydd oed

Rydyn ni wedi mesur cydraddoldeb ar sail rhyw mewn addysg drwy'r cymwysterau gyrhaeddwyd ym mlwyddyn olaf orfodol yr ysgolion h.y. yn 16 mlwydd oed, gan mai'r cymwysterau hyn yw'r rhagfynegydd arwyddocaol o addysg a chyflogaeth yn y dyfodol. Y dangosydd ddewiswyd yw'r gwahaniaeth rhwng canran o'r bechgyn a'r merched sy'n cael pump neu ragor o raddau A – C yn eu TGAU.

	1994/95	2000/01	2003/04	
Bwlch cyrhaeddiad addysgol yn 16 mlwydd oed	8	8	8	

Mae'r dangosydd yn nodi bod y bwlch rhwng bechgyn a merched wedi aros yn sefydlog dros y cyfnod, gyda 64% o'r merched yn ennill pump neu ragor o raddau A – C yn eu TGAU o'u cymharu â 56% o'r bechgyn.

Cymwysterau oedolion

Rydyn ni hefyd wedi mesur cydraddoldeb ar sail rhyw mewn cyrhaeddiad addysgol ymhlith oedolion yn gyffredinol. Y tro hwn, rydyn ni wedi canolbwyntio ar gyfran y dynion a merched mewn oedran gweithio sydd â chymwysterau lefel uwch, sef rhai NVQ lefel 4 neu uwch.

	1996	2001	2004	
Bwlch cymwysterau ymhlith oedolion	1.8	0	0	

Nid oes bellach fawr ddim o fwlch rhwng cymwysterau uwch merched a dynion, gydag 26% o oedolion o'r ddau ryw wedi ennill cymhwyster NVQ lefel 4 neu uwch. Gan fod cydraddoldeb rhwng y ddau ryw yn y maes hwn, rydyn ni wedi rhoi'r golau gwyrdd iddo.

IECHYD

Mae'r ddau ddangosydd rydyn ni wedi ei ddewis ym maes iechyd yn anelu i fesur iechyd yn gyffredinol yn hytrach na mynychder cyflyrau penodol, sy'n cael eu dylanwadu gan ffactorau biolegol yn ogystal â rhai economaidd gymdeithasol. Fel ein dangosyddion, rydyn ni wedi dewis disgwyliad oes yn gyffredinol a chyflwr iechyd sydd wedi ei gofnodi'n bersonol.

Disgwyliad Oes

Rydyn ni wedi mesur disgwyliad oes fel y gwahaniaeth (mewn blynyddoedd) rhwng y hyd blynyddoedd oes a ddisgwylir ar enedigaeth bechgyn a merched ar eu genedigaeth ar dri gwahanol gyfnod.

	1995-97	1999-2001	2002-2004	
Bwlch disgwyliad oes	5.6	5	4.5	

Mae'r dangosydd yn nodi bod y bwlch rhwng disgwyliad oes dynion a merched yn cau. Er bod y disgwyliad oes ar gyfer merched a dynion yn ymestyn, mae disgwyliad oes y dynion yn cynyddu'n gyflymach, felly gall bachgen wedi ei eni yn 2002-4 ddisgwyl byw hyd nes bydd yn 75.8 mlynedd o'i gymharu ag oes o 80.3 mlynedd i ferch.

Iechyd da

Fel dangosydd, rydyn ni'n defnyddio'r gwahaniaeth rhwng y gyfran o ddynion a merched sy'n cofnodi bod eu iechyd yn 'dda'. Y fantais i'r dangosydd hwn yw ei fod ar gael bob dwy flynedd, ac mae'n hawdd i'w ddeall o'i gymharu â rhai o'r mesuriadau eraill. Mae'r dangosydd yn nodi'r bwlch rhwng y gyfran o ferched a'r dynion sy'n dweud bod eu iechyd yn dda.

	1998/99	2000-01	2001-02	
Bwlch iechyd da	12	0	0	

Wedi i'r bwlch fod yn un sylweddol yn 1998/99, pan oedd cyfran uwch o gryn dipyn o ddynion nag o ferched yn dweud bod eu iechyd yn dda, bellach mae'r gyfran o'r ddau ryw yr un fath ym maes iechyd da. Yn ystod 2001-02 roedd 55% o ddynion a merched fel ei gilydd yn nodi eu bod yn dda eu iechyd.

TROSEDDU A DIOGELWCH

Y dangosydd ddewiswyd i fesur anghydraddoldeb ym maes troseddu a diogelwch yw'r ofn sydd gan bobl o drosedd. Rydyn ni wedi dewis 'ofni trosedd' gan y gall gael cryn ddylanwad ar fywydau merched a dynion, prun a oes sail i'r ofnau hynny ai peidio. Ceir hefyd nifer o ystadegau eraill am droseddu yng Nghymru sy'n dangos profiadau dynion a merched ar wahân.

Ofn trosedd

Mae'r dangosydd yn nodi'r gwahaniaeth rhwng y canran o ferched a dynion sy'n teimlo'n ofnus wrth gerdded ar eu pennau eu hunain yn y nos.

	1998	**2001**	**2002-03**	
bwlch ‘ofn cerdded ar ben eich hun yn y nos'	10	11	14	

Yn ystod pum mlynedd mae'r bwlch rhwng teimladau merched a dynion wedi cynyddu'n sylweddol. Erbyn 2002/03, dim ond 3% o ddynion oedd yn teimlo'n wir anniogel wrth gerdded ar eu pennau eu hunain yn y nos, sy'n ddau y cant yn is nag yn 1998. Cymharwch hyn â'r 17% o ferched sy'n teimlo'n anniogel, cynnydd o ddau y cant dros y canran pum mlynedd ynghynt.

BYWYD CYHOEDDUS

****

Mae yna, o hyd, gryn wahaniaeth rhwng ymwneud dynion a merched mewn ystod eang o swyddogaethau cyhoeddus, gan ymestyn o'r farnwriaeth a swyddi uchel hyd at benodiadau cyhoeddus a llwyddiannau etholiadol ac amrywiaeth o gylchoedd llywodraethu.

Y dangosyddion rydyn ni wedi eu dewis yw'r gyfran o ferched etholwyd i Senedd y DG, Y Cynulliad Cenedlaethol ac i lywodraeth leol. Mae rhain yn swyddi amlwg a dylanwadol, ac hefyd yn hawdd eu mesur.

Aelodau Seneddol etholaethau yng Nghymru

	1997	**2001**	**2005**	
Canran o ferched	10	10	20	

Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

		1999	**2003**	
Canran o ferched	Ddim yn berthnasol	40	50	

Cynghorwyr awdurdodau lleol yng Nghymru

	1997	**2001**	**2004**	
Canran o ferched	20.4	19.0	21.8	

Mae'r dangosyddion yn nodi bod hanner aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol yn ferched, ond fod canran yr aelodau sy'n ferched yn Senedd San Steffan a'r cynghorau lleol yn syndod o isel. Er bod canran yr A'auS sy'n ferched wedi codi, mae'r canran o ferched sy'n gynghorwyr lleol yn statig.

SYMUDEDD PERSONOL

Mae symudedd personol yn dylanwadu ar allu pobl i gyrraedd gwaith, y gwasanaethau cyhoeddus ac adnoddau hamdden. Er bod defnyddio cludiant cyhoeddus yn ddymunol, nid yw'n aml yn cynnig yr un symudedd personol â cherbyd preifat. Oherwydd problemau a'r data oedd ar gael, rydyn ni wedi dewis cydraddoldeb ar sail rhyw ym maes symudedd personol drwy fesur faint o ferched neu ddynion sy'n berchen trwydded yrru lawn ar gyfer car, er nad yw'r dangosydd hwn yn nodi os oes car gan y gyrwyr hyn naill ai drwy'r amser neu am ran o'u hamser.

Trwyddedau gyrru llawn

Mesurir symudedd personol fel y gwahaniaeth yn y canran rhwng merched a dynion sy'n berchen trwydded yrru lawn ar gyfer car yn y DG.

	1992-94	**1999-01**	**2002-04**	
Bwlch symudedd personol	35	26	23	

Mae'r dangosydd yn nodi cryn ostyngiad yn y bwlch rhwng y canran o ferched a dynion sydd â thrwydded yrru lawn. Erbyn 2002-4, roedd gan 59% o ferched drwydded o'r fath o'u cymharu â 82% o ddynion.

DALIWCH I FESUR

Ciplun yw'r cyhoeddiad hwn o'r cynnydd tuag at gydraddoldeb ar sail rhyw dros y deng mlynedd diwethaf ac mae'n gosod meincnodau ar gyfer Cymru gan ddisgwyl gweld newidiadau dros y deng mlynedd nesaf.

Credwn y bydd y dangosyddion hyn yn fan cychwyn gwerthfawr i fonitro newidiadau. Rydyn ni'n argymell:

- y dylai'r dangosyddion, bob dwy flynedd, gael eu diweddaru a'r cynnydd gael ei adolygu;

- y dylid datblygu'r dangosyddion ymhellach fel daw mwy o ddata ar gael, e.e. i gynnwys cynhalwyr ac i wella'r ystadegau am grwpiau lleiafrifol ethnig;

- yn fwy cyffredinol, y dylid cael ystod ehangach o ddata ar gyfer Cymru sydd wedi ei ddadansoddi ar sail rhyw.

ATODIAD 1 - FFYNONELLAU

Graddfa cyflogaeth
Ffynhonnell: Ystadegau Cymru / Stats Wales [002044] Crynodeb o'r farchnad waith, yr Arolwg Llafurlu chwarterol, wedi ei gymhwyso'n dymhorol (rhyw, oed, Cymru, DG) chwarteri'r gwanwyn

Graddfa cyflogaeth – grwpiau lleiafrifoedd ethnig
Tabl 5.2 "Ystadegau ar Ethnigaeth / Statistical Focus on Ethnicity" Gorff/July 2004 SB53/004
http://www.wales.gov.uk/keypubstatisticsforwales/content/publication/compendia/2004/sb53-2004/sb53-2004-ch5.htm

Graddfa cyflogaeth – pobl ag anableddau
Arolwg Llafurlu Lleol Cymru / Welsh Local Labour Force, Stats Wales
http://www.statswales.wales.gov.uk/TableViewer/tableView.aspx?ReportId=921

Graddfa cyflogaeth – merched a dynion â phlant dibynnol
Ffigyrau allan o Arolwg Llafurlu Lleol Cymru oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Graddfa cyflogaeth – cynhalwyr
Tabl safonol Cyfrifiad 2001 [Census standard table] SO26

Graddfa cyflogaeth – 50 hyd oed ymddeoliad
Arolwg Llafurlu Lleol Cymru / Welsh Local Labour Force, Stats Wales
http://www.statswales.wales.gov.uk/TableViewer/tableView.aspx?ReportId=924

Gwahaniad Galwedigaethol
2001 & 2004 – Arolwg Llafurlu – cyflogaeth yn ôl galwedigaeth
http://www.statswales.wales.gov.uk/TableViewer/tableView.aspx?ReportId=1822

Incwm
Ffynhonnell: Arolwg Adnoddau Teuluol – Incwm Unigolyn / Family Resources Survey - Individual Income 1996/97 - 2000/01, ONS & Women's Equality Unit (2005) Tabl S5.1
http://www.womenandequalityunit.gov.uk/research/individual_income_tables2005.pdf

Enillion
Ffynhonnell: Arolwg blynyddol o oriau ac enillion (dadansoddiad yn y gweithle) gan Nomis / Annual survey of hours and earnings (workplace analysis) from Nomis 28/02/06

Cymwysterau yn 16 mlwydd oed
Ffynhonnell: Ysgolion yng Nghymru Tabl 2.11, Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Canlyniadau Arholiadau / Schools in Wales 2004 – Examination Results – Table 2.11, National Assembly for Wales
http://www.wales.gov.uk/keypubstatisticsforwales/content/publication/schools-teach/2005/siwep2004/siwep2004-ch2/siwep2004-t2-11.xls

Cymwysterau Oedolion
2004 – Lefelau o'r Cymwysterau Uchaf ym meddiant Oedolion Oed Gweithio yng Nghymru, 2004, Cynulliad Cenedlaethol Cymru / The Levels of Highest Qualification Held by Working Age Adults in Wales 2004, National Assembly for Wales SB9/2006
http://www.wales.gov.uk/keypubstatisticsforwales/content/publication/post16education/2006/sb9-2006/sb9-2006.pdf

2001 - Lefelau o'r Cymwysterau Uchaf ym meddiant Oedolion Oed Gweithio yng Nghymru, 2001, Cynulliad Cenedlaethol Cymru / The Levels of Highest Qualification Held by Working Age Adults in Wales 2001, National Assembly for Wales SB115/2003
http://www.wales.gov.uk/keypubstatisticsforwales/content/publication/post16education/2003/sb115-2003/sb115-2003.pdf

1996 – Ffigyrau ddarparwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Disgwyliad Oes
Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Disgwyliad Oes / National Assembly for Wales, Life Expectancy 2002-02, SB7/2006 Tabl 1
http://www.wales.gov.uk/keypubstatisticsforwales/content/publication/health/2006/sb7-2006/sb7-2006.pdf

Iechyd da a ddynodir
Tablau Tueddiadau Rhanbarthol [Regional Trends 38 Table 7.3, Regional Trends 37 Table 7.4, Regional Trends 36 Table 7.4]
http://www.statistics.gov.uk/StatBase/Product.asp?vlnk=836&Pos=&ColRank=1&Rank=422

Ofn Trosedd
Arolwg ar Droseddu ym Mhrydain allan o Dabl Tueddiadau Rhanbarthol / British Crime Survey quoted in: Regional Trends 38 Table 9.13
http://www.statistics.gov.uk/statbase/Expodata/Spreadsheets/D7794.xls

Tabl Tueddiadau Rhanbarthol / Regional Trends 37 Table 9.14
http://www.statistics.gov.uk/statbase/Expodata/Spreadsheets/D6015.xls

Tabl Tueddiadau Rhanbarthol / Regional Trends 35 Table 9.13
http://www.statistics.gov.uk/downloads/theme_compendia/regional_trends/RT35_09_Crime_Justice.pdf

Aelodau Seneddol
Ffigyrau o Dŷ'r Cyffredin

Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cynghorwyr Awdurdodau Lleol
Sefydliad Cyflogwyr Llywodraeth Leol
http://www.lg-employers.gov.uk/default.php

Symudedd Personol
Ystadegau Cludiant Cymru Tabl 2.18 Cynulliad Cenedlaethol Cymru / Welsh Transport Statistics 2005 Table 2.18, National Assembly for Wales
http://www.wales.gov.uk/keypubstatisticsforwales/content/publication/transport/2005/wts2005/wts2005-ch2/wts2005-t2-18.xls